# PAPURAU BUSNES

## Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 23 Tachwedd i'w hateb ar 7 Rhagfyr

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

**Gofyn i'r Gweinidog dros Diwylliant a Chwaraeon**

1. **Tom Middlehurst (Alun a Glannau Dyfrdwy);** A all gyflwyno cynigion ar gyfer gweithredu argymhellion Adroddiad Wallace sy'n gofyn am benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. (OAQ8249)

2. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa ystyriaeth a roddwyd ganddi i hybu cyfranogiad menywod mewn pêl-droed yng Nghymru. (OAQ8350)

3. **Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pryd cwblhawyd adolygiad pum mlynedd diwethaf Cyngor Celfyddydau Cymru, a phryd y cwblheir yr adolygiad nesaf. (OAQ8309)

4. **Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau ydy'r Gweinidog wedi cael gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor Celfyddydau i drafod cyfansoddiad y corff hwnnw. (OAQ8372) W

5. **William Graham (Dwyrain De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddi i drosglwyddo'r swyddogaeth loteri sy'n ymwneud â ffilmiau o ofal Cyngor Celfyddydau Cymru. (OAQ8349)

6. **Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud wrth sicrhau mynediad am ddim i oedolion i'n hamgueddfeydd cenedlaethol. (OAQ8341)

7. **Helen Mary Jones (Llanelli);** Sut y bydd yn sicrhau bod y diwydiannau chwaraeon a diwylliant yng Nghymru yn cyfrannu tuag at adfywio ein cymunedau. (OAQ8323)

**8. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa sylwadau y mae wedi'u cael ynglyn â'r problemau a wynebir gan Ganolfan Ucheldre, Caergybi. (OAQ8335)

**9. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Sut mae'n bwriadu hyrwyddo celfyddydau a diwylliant nad ydynt yn Gymraeg eu cyfrwng yng Nghymru. (OAQ8252)**TYNNWYD YN OL**

**10. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglyn â phennu Dydd Gwyl Dewi yn wyl banc cenedlaethol yng Nghymru. (OAQ8328)

**11. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A fydd cyllideb ddrafft 2001-2004 yn caniatáu i'r weinyddiaeth gyflwyno ei hamcanion mewn perthynas â'r Celfyddydau, Diwylliant a Chwaraeon yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn y Cytundeb Partneriaeth. (OAQ8325)**TYNNWYD YN OL**

**12. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Ydy'r Gweinidog wedi ystyried ffyrdd o ryddhau Cyngor Celfyddydau Cymru o hualau y cyfansoddiad presennol sy'n rheoli ei weithgareddau. (OAQ8368) W**TYNNWYD YN OL**

**13. Gareth Jones (Conwy);** Pa ystyriaeth y mae wedi'i rhoi i ddulliau o sicrhau mewnbwn effeithiol i ddeddfwriaeth arfaethedig San Steffan ar ddarlledu a chyfathrebu. (OAQ8327)**TYNNWYD YN OL**

**14. David Davies (Mynwy);** Pa gyrff cyhoeddus yng Nghymru sydd heb eu cynnwys ar hyn o bryd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg. (OAQ8298)

**15. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa gamau y mae'n eu cymryd i ddatblygu amgueddfeydd y tu allan i Gaerdydd. (OAQ8287)

**16. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A yw wedi derbyn unrhyw sylwadau gan gynrychiolwyr o ddinasoedd yng Nghymru sy'n bwriadau ymgeisio am statws Dinas Ddiwylliannol Ewrop yn 2008. (OAQ8373)**TYNNWYD YN OL**

**17. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Sut y mae'n esbonio absenoldeb unrhyw gynlluniau ar gyfer chwaraeon yn rhaglen waith flynyddol y Llywodraeth. (OAQ8369) W

**18. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A wnaiff ddatganiad ynghylch y ddarpariaeth o arian cyfatebol ar gyfer mentrau chwaraeon yng Nghymru. (OAQ8251) **TYNNWYD YN OL**

2.

**19. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatgan unwaith eto ei bod yn cefnogi'r syniad o ddarlledu Newyddion o Gymru ar y BBC am chwech o'r gloch yn hytrach na'r 'Six O 'clock News'. (OAQ8308)**TYNNWYD YN OL**

3.

**20. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa fesurau fydd y llywodraeth yn eu cyflwyno yn ystod y deuddeg mis nesaf i godi proffil chwaraeon yng Nghymru. (OAQ8324) **TYNNWYD YN OL**

**21. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Sut y mae'n bwriadu datblygu'r diwydiant ffilm yng Nghymru. (OAQ8351)

**22. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau y mae'n eu cymryd i gefnogi'r ymgyrch i ddenu'r Cwpan Ryder i Gymru. (OAQ8284)

**23. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sut y bydd y llywodraeth yn sicrhau bod y polisi ar gelfyddyd a diwylliant yn datblygu ar sail partneriaeth a chydweithio gyda phob grp perthnasol yn y gymuned gelfyddydol. (OAQ8331)**TYNNWYD YN OL**

**24. David Melding (Canol De Cymru);** Pryd y bydd yn gwireddu'r addewid a wnaed yn y maniffesto i "sefydlu Oriel Celfyddyd Fodern Genedlaethol". (OAQ8283)**TYNNWYD YN OL**

**25. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff edrych ar y posibilrwydd o ail-sefydlu marathon amlwg i Gymru fydd yn denu niferoedd uchel o redwyr. (OAQ8300)

**26. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Ydy hi'n fodlon bod cyllid digonol ar gael er mwyn gwireddu polisi'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer yr iaith Gymraeg. (OAQ8374) W

**27. Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff ddatganiad ar y mesurau y mae'r Gweinidog yn cymryd i hybu diwydiannau creadigol yng Nghymru. (OAQ8371) W**TYNNWYD YN OL**

**28. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Sut y mae'n bwriadu datblygu'r diwydiant ffilm yng Nghymru. (OAQ8288)

**29. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Beth yw ei blaenoriaethau o ran yr argymhellion a wnaed yn "Diwylliant Cytûn". (OAQ8326)**TYNNWYD YN OL**

**30. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa bolisïau y bydd yn eu dilyn er mwyn denu mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon. (OAQ8301)

**Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig**

1. **Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar Tir Gofal. (OAQ8307)

2. **Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd

er mwyn monitro sut y mae bwyd yn cael ei ddosbarthu gan y Bwrdd Ymyrraeth. (OAQ8263)

3. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cynnal â'r weithrediaeth iechyd a diogelwch ynghylch iechyd a diogelwch ar ffermydd yng Nghymru. (OAQ8353)

4. **Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pryd y bydd yn rhoi ateb llawn i'r cwestiynau a gyflwynwyd gan Gyfeillion y Ddaear ar 16 Mehefin am y profion ar indrawn a addaswyd yn enetig a gynhaliwyd yn Sir y Fflint. (OAQ8304)

5. **David Davies (Mynwy);** A yw'r holl wybodaeth a roddir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i'w gydweithwyr yn San Steffan ar gael iddo yntau hefyd. (OAQ8295)

6. **Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A fu unrhyw ddatblygiadau pellach o ran yr ymdrechion i roi'r cynnig a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Mai ar waith. (OAQ8281)

7. **Delyth Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn sicrhau'r gwerth uchaf posibl i Gig Eidon a Chig Oen Cymru. (OAQ8274)

8. **Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Sut y gall y Gweinidog sichrau bod bwyd yn cael ei ddosbarthu mewn ffordd deg ac annibynnol gan y Bwrdd Ymyrraeth. (OAQ8261)

9. **Gareth Jones (Conwy);** A yw'n fwriad ganddo gysylltu cynlluniau amaeth-amgylcheddol â chynllun newydd ddyfodiad i ffermwyr. (OAQ8355) [W]

10. **Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff ddatganiad i egluro sut y mae Trysorlys y DU yn effeithio ar yr adnoddau Ewropeaidd a fwriedir ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru. (OAQ8359) [W]

11. **Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** A yw'r Mesurau Cymhwyso yn y Cynllun Datblygu Gwledig yn cael uchafswm yr arian ychwanegol sydd ar gael o Ewrop, yn ogystal ag arian cyfatebol o'r Trysorlys. (OAQ8267)

12. **Helen Mary Jones (Llanelli);** A yw llywodraeth Cymru wedi newid ei thargedau ar gyfer nifer y ffermydd sy'n newid i ffermio'n organig/sy'n rhan o gynlluniau amaeth-amgyclheddol erbyn 2006. (OAQ8282)

13. **Elin Jones (Ceredigion);** Faint o gyllideb amaethyddiaeth y Cynulliad sy'n cael ei wario ar roi cymorth i bobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru. (OAQ9343) [W]

14. **Christine Humphreys (Gogledd Cymru);** Pa gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn lleihau biwrocratiaeth mewn amaethyddiaeth. (OAQ8303)

15. **Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A yw wedi ymchwilio i'r posibilrwydd bod BSE

yn bresennol yn y cig sy’n cael ei fewnforio i Gymru. (OAQ8337)

16. **Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad am ddyfodol lladd-dai bach yng Nghymru. (OAQ8290)

17. **Dafydd Wigley (Caernarfon);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad i egluro'r anghysondebau sydd yn bodoli rhwng yr adran ar y Gymru Wledig yn y ddogfen Rhoi Cymru'n Gyntaf, a'r adnoddau sy'n cael eu cynnig yn y gyllideb. (OAQ8364) (W)

18. **Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff ddatganiad i egluro pam nad yw'r cynllun ffermwyr ifanc yn cael ei gynrychioli yn y gyllideb. (OAQ8356) (W)

19. **Owen John Thomas (Canol Caerdydd);** A fydd yna fuddsoddiad ychwanegol o £10 miliwn y flwyddyn i gynllun Tir Gofal yn ystod y tair blynedd nesaf. (OAQ8363) (W)

20. **Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A wnaiff ddatganiad am faint o arian sy'n cael ei dalu gan y Comisiwn Coedwigaeth bob blwyddyn i gymdeithasau sy'n rheoli llwynogod. (OAQ8296)

21. **Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa gamau y mae'r Ysgrifennydd wedi eu cymryd i lunio cynllun gweithredu integredig ar gyfer y Gymru wledig. (OAQ8333)

22. **Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa sylwadau sydd wedi dod i law oddi wrth y diwydiant lladd-dai ynghylch y bwriad i wahardd torri madruddyn y cefn. (OAQ8306) **TYNNWYD YN OL**

23. **Alison Halford (Delyn);** A wnaiff ddatganiad am berfformiad 'Cyswllt Ffermio' o'i gymharu â pherfformiad 'Cyswllt Busnes'. (OAQ8255)

24. **Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa effaith a gaiff adroddiad Phillips ar Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (OAQ8279)

25. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff ddatganiad am y cyflogau isel a delir i weithwyr fferm yng Nghymru. (OAQ8354) **TYNNWYD YN OL**

26. **Richard Edwards (Preseli Penfro);** A wnaiff ddatganiad am y datblygiadau diweddaraf o ran defnyddio lloi buchod godro yn y diwydiant cig llo yng Nghymru. (OAQ8258)**TYNNWYD YN OL**

27. **Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cynnal â'i gydweithwyr yn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd mewn perthynas â pha mor ddiogel yw'r cig eidion sy'n cael ei fewnforio i Gymru o Ffrainc. (OAQ8270)

28. **Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sut y mae'n bwriadu lleihau costau

glanweithdra cig mewn unedau prosesu bychain. (OAQ8345) (W)

29. **Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A fydd yn cyfarfod â ffermwyr Gogledd Cymru i drafod cymorth i fynd i'r afael ag effeithiau'r llifogydd. (OAQ8332)

30. **Brian Hancock (Islwyn);** Pa gymorth sy'n cael ei gynnig gan Awdurdod Datblygu Cymru i farchnadoedd fferm sefydledig. (OAQ8278)